

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2020

## Digwyddiadau Archwilio Cymru: Cylch Gorchwyl

Gallai Archwilio Cymru ddarparu cynadleddau a digwyddiadau ('Digwyddiad(au) Swyddfa Archwilio Cymru') i gyrff a archwiliwyd drwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

### Presenoldeb a Chytundeb

Mae staff cyrff a archwiliwyd, ar ran y corff sy'n eu cyflogi, yn cytuno i dderbyn gwasanaethau a ddarperir gan Archwilio Cymru drwy gofrestru i fynd i ddigwyddiad Archwilio Cymru, sy'n cyfeirio at y Cylch Gorchwyl hwn. Drwy gofrestru ar gyfer digwyddiad, mae staff yn cadarnhau eu bod nhw wedi'u hawdurdodi i gytuno ar ddarpariaeth gwasanaeth ar ran eu cyflogwr a bod ganddynt ganiatâd i fynd i'r digwyddiad.

Mae hefyd croeso i staff sefydliadau'r trydydd sector, elusennau a mentrau neu gymdeithasau cymdeithasol, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb, i fynd i ddigwyddiadau Archwilio Cymru pan fo capasiti digonol.

Fel arfer rydym yn darparu digwyddiadau Archwilio Cymru am ddim neu am gost isel i'r bobl sy'n bresennol. Rydym yn esbonio sut yr ydym yn ymdrin â data personol a ddarperir gan y rhai sy'n bresennol a chyfranwyr mewn hysbysiad prosesu teg sydd ar gael ar ein gwefan.

### Diben Digwyddiadau Archwilio Cymru

Mae Archwilio Cymru yn cynllunio digwyddiadau i:

- ymgysylltu â staff mewn cyrff a archwiliwyd;
- datblygu a gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith a'n harferion gwaith a myfyrio arnynt;
- hwyluso'r ddarpariaeth o ddatblygiad proffesiynol i staff cyllid y sector cyhoeddus, gan gynnwys hyfforddai cyllid;
- hwyluso datblygu rhwydweithio a chyd-weithio cynorthwyol ar draws cyrff y sector cyhoeddus, a

- cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ystyried sut i wella arferion a chyflawni newid.

Gallai digwyddiadau<sup>1</sup> Archwilio Cymru fod ar ffurf:

**Ymgysylltu neu drwy gyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill** sy'n cynnwys cyflwyniadau, trafodaethau, rhwydweithio a/neu archwilio pynciau penodol gyda'r cyfle i gael cyfraniadau a chwestiynau gan y rhai sy'n bresennol yn y digwyddiad.

**Cynadleddau** gyda chyflwyniadau gan siaradwyr allweddol a gweithdai a thrafodaethau wedi'u hwyluso.

## Trefnu digwyddiadau

Mae staff Archwilio Cymru yn trefnu ac yn hwyluso ein digwyddiadau ar ran Archwilio Cymru, a allai ddarparu digwyddiadau Archwilio Cymru ar eu pen eu hunain neu mewn cydweithrediad (neu ar y cyd) â chyrrff cyhoeddus a/neu sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Efallai byddwn yn ymgynghori â chyfranogwyr allanol wrth gwmpasu a datblygu digwyddiadau, ac efallai y byddwn yn eu gwahodd i siarad ac ateb cwestiynau mewn digwyddiad. Rydym yn hysbysebu ein digwyddiadau ar wefan Archwilio Cymru, drwy ein cyfrifon Facebook, LinkedIn a Twitter i gyrrff a archwiliwyd sydd â staff sy'n gallu cymryd rhan, awgrymu syniadau a chyfrannu i ddigwyddiadau. Efallai y byddwn ni hefyd yn anfon e-bost at y rheini sydd wedi mynychu digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

## Cyhoeddusrwydd a Chyfyngau Cymdeithasol

Mae staff Archwilio Cymru yn defnyddio cyfyngau cymdeithasol i annog rhyngweithio a thrafodaeth rhwng staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Caiff gwefannau cyfyngau cymdeithasol Archwilio Cymru eu rheoli yn unol â'r canllawiau cyfyngau cymdeithasol sydd ar wefan Archwilio Cymru. Efallai y byddwn ni'n ysgrifennu am ddigwyddiadau Archwilio Cymru ymlaen llaw i'w hyrwyddo ac i greu diddordeb. Efallai y byddwn ni hefyd yn gwahodd cyfranwyr i wneud hynny. Yn ystod digwyddiadau rydym yn annog y rhai sy'n bresennol i gyfrannu cwestiynau, barnau a negeseuon allweddol ac efallai y byddwn ni'n rhannu'r rheini ar ein gwefan, dros e-bost a'n cyfrifon cyfyngau cymdeithasol.

<sup>1</sup> *Ers mis Mawrth 2020, mae ein digwyddiadau wedi'u cynnal yn rhithiol drwy fideo gynadledda yn sgil cyfyngiadau a chanllawiau COVID-19 (gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd Digwyddiadau Archwilio Cymru) a byddwn yn parhau i wneud hynny hyd y gellir rhagweld, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.*